

# Hysbysiad Preifatrwydd

## Beth yw diben yr Archwiliad o Ganser Oesoffago-Gastrig?

Mae'r Archwiliad Cenedlaethol o Ganser Oesoffago-Gastrig (NOGCA) yn cael ei gynnal gan bartneriaeth rhwng yr Uned Effeithiolrwydd Clinigol a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon, NHS Digital, Cymdeithas Llawdriniaethau'r Bibell Gastroberfeddol Uchaf Prydain Fawr ac Iwerddon (AUGIS), Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain (BSG) a Choleg Brenhinol y Radiolegwyr (RCR).

Mae'r Archwiliad yn mesur ansawdd y gofal a gafodd cleifion â chanser oesoffago-gastrig a dysplasia gradd uchel oesoffagaidd gan wasanaethau'r GIG yng Nghymru a Lloegr. Y nod yw gwerthuso'r llwybr gofal a ddilyna cleifion ar ôl iddynt gael diagnosis gyda'r naill gyflwr, ac ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r gofal a gawsant a'u canlyniadau.

Drwy archwilio'r gofal a ddarperir gan wasanaethau canser, fe all y NOGCA dynnu sylw at feysydd lle mae ysbytai'n gwneud yn dda, a meysydd lle mae lle i wella ansawdd y gofal. Drwy gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer holl wasanaethau'r GIG, mae'n caniatáu i wasanaethau canser gymharu eu hunain ag eraill yng Nghymru a Lloegr, a rhannu esiamplau o ymarfer da.

## Sut caiff data cleifion ei gasglu, a pha lefel o ddata a gesglir?

Mae'r holl oedolion sy'n gleifion i'r GIG sydd â diagnosis o ganser oesoffago-gastrig (OG) neu ddysplasia gradd uchel oesoffagaidd (HGD) yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i gael eu cynnwys yn y NOGCA. Ysbytai'r GIG sy'n rhoi data'r cleifion i'r Archwiliad ac fe'i cedwir mewn system TG ddiogel a gynhelir gan NHS Digital.

Mae ysbytai yn darparu gwybodaeth am y gofal a gaiff cleifion am ganser OG neu HGD. Mae'r Archwiliad hefyd yn casglu gwybodaeth adnabyddadwy (rhif GIG, dyddiad geni a chod post) sy'n galluogi'r Archwiliad i gysylltu gwybodaeth a gyflwynir gan dimau ysbytai eraill ar gyfer yr un claf. Mae manylion y wybodaeth y mae'r Archwiliad yn ei chasglu i'w gweld yma:

[www.nogca.org.uk/resources/nogca-data-proforma/](http://www.nogca.org.uk/resources/nogca-data-proforma/)

Rhag i staff ysbytai orfod casglu data ychwanegol, mae'r Archwiliad hefyd yn cysylltu'r data a gyflwynwyd gyda gwybodaeth arall a ddelir yn y cronfeydd data ysbytai cenedlaethol (Ystadegau Cyfnodau Gofal Ysbytai a Chronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru), y gofrestr farwolaethau genedlaethol (Swyddfa Ystadegau Gwladol), cemotherapi a radiotherapi, Cofrestriadau Canser, Set Ddata Gwasanaethau a Chanlyniadau Canser, Amseroedd Aros Canser a'r Arolwg Cenedlaethol o Brofiad Cleifion Canser. NHS Digital neu'r rheolyddion data ar gyfer y setiau data unigol sy'n gwneud y gwaith o gysylltu'r setiau data. Mae'r data a gyflwynir gan ysbytai i'r archwiliad yn dal i fod dan reolaeth y sefydliadau hynny.

Ar ôl eu cysylltu, cyflwynir i dîm prosiect NOGCA ddim ond setiau data anadnabyddadwy i'w dadansoddi. Caiff y data hwn wedyn ei storio mewn amgylchedd TG diogel yng Ngholeg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr (RCS). Mae rheolaethau mynediad ar sail rôl yn golygu bod mynediad i'r data ddim ond ar gael i unigolion cymeradwy. At hynny, caiff diogelwch y data ei gynnal drwy ddefnyddio cyfrineiriau a chodau. Mae'r RCS yn glynu wrth Reoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig (GDPR) a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â defnyddio data

cleifion anadnabyddadwy/â ffugenwau. Caiff y data a ddaw i law tîm NOGCA ei gadw am y cyfnod a ddiffinnir gan y rheolyddion data perthnasol.

### Rheolyddion Data ar gyfer yr Archwiliad

Caiff y NOGCA ei gomisiynu gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Archwiliad Clinigol Cenedlaethol a'r Rhaglen Canlyniadau Cleifion ar ran GIG Lloegr a Llywodraeth Cymru.

Mae GIG Lloegr, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) a HQIP yn rheolyddion data ar y cyd dros y data cleifion a gyflwynir yn uniongyrchol i'r Archwiliad gan ysbytai'r GIG – GIG Lloegr gyda HQIP ar gyfer data Lloegr a DHCW ar gyfer data Cymru.

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data HQIP yn y cyfeiriad e-bost hwn:

[data.protection@hqip.org.uk](mailto:data.protection@hqip.org.uk). I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch Ddatganiad GDPR HQIP: <https://www.hqip.org.uk/about-us/our-gdpr-statement/#.YpTli51KhPY> Mae'r manylion ar gyfer cysylltu â HQIP i'w gweld yma: <https://www.hqip.org.uk/contact-us/#.YpS4eJ1KiUn>

Mae NHS Digital yn cyfuno'r data a gyflwynir i'r Archwiliad gyda gwybodaeth a ddelir mewn cronfeydd data cenedlaethol eraill. Mae manylion y rheolyddion data ar gyfer y cronfeydd data cenedlaethol hyn i'w gweld isod. Cliciwch y dolenni i gael rhagor o wybodaeth amdanynt:

- NHS Digital – data o ysbytai Lloegr o'r [setiau data Ystadegau Cyfnodau Gofal Ysbytai \(HES\)](#), data ar [gemothorapi \(SACT\)](#), [radiotherapi \(RTDS\)](#), [cofrestriadau cancer](#), [gwasanaethau a chanlyniadau cancer \(COSD\)](#) ac [amseroedd aros cancer \(CWT\)](#)
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru – data o ysbytai Cymru o [Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru \(PEDW\)](#) a [data radiotherapi \(RTDS\)](#)
- Swyddfa Ystadegau Gwladol ac NHS Digital - [cofrestr farwolaethau](#)
- GIG Lloegr – [yr Arolwg Cenedlaethol o Brofiad Cleifion Cancer \(CPES\)](#)

### Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol

Mae gan y NOGCA gymeradwyaeth i brosesu gwybodaeth gofal iechyd dan Adran 251 (cyfeirnod: ECC 1-06 (c)/2011) ar gyfer pob claf sy'n cael diagnosis o ganser OG yng Nghymru a Lloegr. Mae mwy o wybodaeth ar adran 251 ar gael yma: <https://www.hra.nhs.uk/about-us/committees-and-services/confidentiality-advisory-group/confidential-patient-information-and-regulations/>

Mae'r NOGCA yn prosesu data dan erthygl 6 (1) (e) a 9 (2) (i) o'r GDPR gan fod y data yn angenrheidiol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd i sicrhau safonau gofal uchel a diogelwch gofal iechyd.

Mae tîm y NOGCA yn prosesu gwybodaeth cleifion er mwyn gwerthuso a gwella ansawdd y gofal a gaiff cleifion sydd â chanser OG a HGD oesoffagaidd mewn gwasanaethau cyllid cyhoeddus (GIG) yng Nghymru a Lloegr, ac mae hynny er budd y cyhoedd.

Rydyn ni hefyd yn prosesu data personol ynglŷn â staff ysbytai sy'n angenrheidiol i reoli'r trefniadau casglu data a phroses y Cyhoeddiad Canlyniadau Clinigol, e.e. gwybodaeth gysylltu ar gyfer timau clinigol ac aelodau staff sy'n gysylltiedig â'r NOGCA. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi NHS Digital/NOGCA i ddsbarthu diweddariadau pwysig am yr archwiliad, gweinyddu diweddariadau trefniadol i'r archwiliad a chysylltu â darparwyr yn ystod y broses allanolynnu. Ni chaiff y wybodaeth hon ei rhannu'r tu allan i NHS Digital.

### **Sut rydym yn diogelu eich data**

Mae timau clinigol lleol yn cofnodi data cleifion mewn offeryn gwe diogel a ddarperir gan NHS Digital. Dim ond meddygon, nyrsys a staff archwilio clinigol sydd wedi cofrestru gyda'r Archwiliad sydd â mynediad i'r offeryn casglu data. Caiff diogelwch a chyfrinachedd eu cynnal drwy ddefnyddio cyfrineiriau a phroses gofrestru ar gyfer unigolion penodol. Dim ond staff NHS Digital ar dîm y NOGCA sydd â mynediad i'r set ddata gyfan yn yr offeryn casglu data.

### **Cyfrinachedd cleifion**

Caiff y wybodaeth lefel cleifion y mae tîm y NOGCA yn ei chael ac yn delio â hi yn cael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol. Wrth ddadansoddi'r data i gynhyrchu'r wybodaeth am ofal a chanlyniadau cleifion, nid yw tîm y NOGCA ond yn defnyddio data anadnabyddadwy nad yw'n cynnwys gwybodaeth adnabyddadwy fel enw, cyfeiriad a chod post.

Wrth gyhoeddi data, mae'r Archwiliad yn adrodd ystadegau ar lefel y grŵp (e.e. cenedlaethol, rhanbarthol, neu ar gyfer grŵp cleifion penodol), ac nid oes modd adnabod unigolion o'r data hwn. I sicrhau hyn, mae'r Archwiliad yn dilyn canllawiau a gyflwynir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyhoeddi ystadegau – Adolygiad o Ledaenu Ystadegau Iechyd: Canllawiau Cyfrinachedd (PDF):

<https://www.ons.gov.uk/file?uri=/methodology/methodologytopicsandstatisticalconcepts/disclosurecontrol/healthstatistics/confidentialityguidanctcm77181864.pdf>

### **Sut mae tîm y NOGCA yn ymdrin â data lefel cleifion**

Mae tîm y NOGCA wedi'i leoli yng Ngholeg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr (RCS) ac yn NHS Digital. Mae'r RCS ac NHS Digital yn glynu wrth y GDPR a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â chasglu a defnyddio data cleifion. Mae gan y ddau sefydliad fesurau diogelwch caeth ar waith i ddiogelu gwybodaeth cleifion a ddelir yn y system casglu data ac wrth ddadansoddi'r set ddata anadnabyddadwy. Mae lefelau diogelwch yn rhan annatod o'r system TG casglu data, megis diogelwch drwy gyfrineiriau adnabod sy'n atal defnyddwyr heb ganiatâd rhag cael mynediad a chaiff y data ei godio.

### **Gyda phwy ydyn ni'n rhannu data?**

Nid yw'r NOGCA ond yn rhannu data lefel cleifion gan ddilyn trefn lywodraethu gaeth i sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Caiff ymchwilyr wneud cais i

HQIP os ydynt eisiau defnyddio data'r Archwiliad ar gyfer astudiaeth ymchwil. Mae'r ceisiadau hyn yn mynd drwy broses gymeradwyo gaeth fel yr amlinellir yma: [www.hqip.org.uk/national-programmes/accessing-ncapop-data](http://www.hqip.org.uk/national-programmes/accessing-ncapop-data)

### **Beth os nad wyf eisiau i'm gwybodaeth gael ei defnyddio gan yr Archwiliad?**

Fe all pob claf ofyn i'w gwybodaeth gael ei dileu oddi ar gronfa ddata'r NOGCA drwy gysylltu â thîm Ymholiadau NHS Digital ([enquiries@nhsdigital.nhs.uk](mailto:enquiries@nhsdigital.nhs.uk) neu 0300 303 5678). Mae eithrio o'r Archwiliad yn wahanol i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth Eithrio o Ddata Cenedlaethol, y mae'r NOGCA wedi'i eithrio ohono, er mwyn lleihau'r effaith niweidiol ar ddiogelwch cleifion. I gael rhagor o wybodaeth am eich dewisiadau ynglŷn ag optio allan gweler [www.nogca.org.uk/patient-choices](http://www.nogca.org.uk/patient-choices)

I gael gwybodaeth am sut i ymarfer eich hawliau diogelu data unigol neu os oes gennych chi bryderon am sut gaiff eich data ei ddefnyddio cysylltwch â'r Archwiliad yn y cyfeiriad e-bost canlynol: [og.cancer@nhs.net](mailto:og.cancer@nhs.net)

I gael gwybodaeth am sut i weld, cywiro neu ddileu gwybodaeth a ddelir mewn setiau data eraill y mae'r Archwiliad yn eu defnyddio, gweler bolisi'r rheolydd data perthnasol:

- NHS Digital: [www.digital.nhs.uk/your-data](http://www.digital.nhs.uk/your-data)
- Swyddfa Ystadegau Gwladol: [www.ons.gov.uk/aboutus/transparencyandgovernance/dataprotection](http://www.ons.gov.uk/aboutus/transparencyandgovernance/dataprotection)
- GIG Lloegr: <https://www.england.nhs.uk/statistics/statistical-work-areas/cancer-patient-experience-survey/> a <https://www.ncpes.co.uk/faq/>
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru: <https://igdc.gig.cymru/amdanom-ni/cadw-gwybodaeth-cleifion-yn-ddiogel/>
- HQIP: <https://www.hqip.org.uk/about-us/our-gdpr-statement/#.YpTgyZ1KhPY>

### **Newidiadau i'n polisi prosesu teg**

Rydyn ni'n adolygu ein polisi prosesu teg yn rheolaidd a byddwn wastad yn cynnwys y fersiwn ddiweddaraf ar wefan y NOGCA.

Diweddarwyd y polisi preifatrwydd ddiwethaf ar 18<sup>fed</sup> Tachwedd 2022.

### **Sut i gysylltu â ni**

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein polisi preifatrwydd neu am wybodaeth y mae'r Archwiliad yn ei dal amdanoch chi. Cyfeiriad e-bost: [og.cancer@nhs.net](mailto:og.cancer@nhs.net)

Mae gwybodaeth am y gofynion ar gyfer yr Archwiliad i gadw data personol yn ddiogel a sut i adrodd am achos o dorri diogelwch data, i'w chael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

### Geirfa

Rheolydd data – y prif benderfynwr, sy'n ymarfer ei reolaeth cyffredinol dros y dibenion a'r modd y caiff data personol ei ddefnyddio a'i brosesu

Prosesydd data – yn gweithredu ar ran, a dim ond ar gyfarwyddyd, y rheolydd data perthnasol

GDPR erthygl 6 (1) (e) – “pan fo prosesu yn angenrheidiol i gyflawni tasg a gynhelir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol wedi'i freinio yn y rheolydd”

GDPR erthygl 9 (2) (i) – “pan fo prosesu yn angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd cyhoeddus, megis gwarchod rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol”